# Crynodeb o Fil

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Chwefror 2013


Y Gwasanaeth Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: **www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 13/0271

# Crynodeb o Fil
Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Chwefror 2013

Stephen Boyce
Owain Roberts

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ..... 1

**2. Llinell amser** ..... 2

2.1. Datblygiadau yn y trydydd Cynulliad (2007-2011) ..... 2
2.2. Datblygiadau yn y pedwerydd Cynulliad hyd yma ..... 2
2.3. Y sefyllfa yn Lloegr ..... 4

**3. Y Bil** ..... 6

3.1. Nodau ac amcanion polisi ..... 6
3.2. Darpariaethau ..... 7

**4. Goblygiadau ariannol** ..... 11

**5. Ymatebion** ..... 12

# Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno:** 28 Ionawr 2013

**Yr Aelod sy'n gyfrifol:** Gwenda Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar Gyfnod 1 y Bil:** Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ar Gyfnod 1:** 21 Mehefin 2013

Nod *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*[1] ('y Bil') yw hwyluso'r broses o weithredu polisïau gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru a chydgrynhoi ac egluro cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru o fewn fframwaith cyfreithiol sy'n benodol Gymreig.

Mae'r papur hwn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gefndir am y cynnig presennol, gan gynnwys manylion ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ac eraill ynglŷn â gofal cymdeithasol yng Nghymru hyd yma. Mae hefyd yn rhoi trosolwg cyffredinol o brif amcanion a darpariaethau'r Bil, ac yn crynhoi rhai o'r ymatebion cychwynnol yn sgil cyhoeddi'r Bil.

[1] *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* [fel ar 7 Chwefror 2013]

## 2. Llinell amser

Mae cynnwys y Bil yn seiliedig ar nifer o ymgynghoriadau ac adolygiadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill dros y blynyddoedd diwethaf. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

### *2.1. Datblygiadau yn y trydydd Cynulliad (2007-2011)*

Ym **mis Tachwedd 2009**, sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC. Cafodd y Comisiwn y dasg o ystyried y ffordd orau o sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn diwallu anghenion dinasyddion Cymru dros y degawd nesaf.[2] Cyhoeddwyd ei ganfyddiadau yn ei adroddiad ym **mis Tachwedd 2010**, *Gweithredu'r Weledigaeth*.[3] Hefyd, comisiynodd y Dirprwy Weinidog Grŵp Gorchwyl y Gweithlu Gwaith Cymdeithasol a gynhyrchodd adroddiad ym **mis Rhagfyr 2010**.[4]

Roedd maniffesto Llafur Cymru ar gyfer Etholiad Cyffredinol Cymru ym **mis Mai 2011** yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y maniffesto'n datgan:

> Gan ddefnyddio ein pwerau deddfwriaethol newydd, byddwn yn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol i symleiddio'r cymysgedd o ddeddfwriaeth sydd ar hyn o bryd yn rheoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn gwneud mynediad i wasanaethau lawer yn haws ac yn fwy dealladwy i'r rheiny sydd eu hangen. Bydd hyn yn seiliedig ar adolygiad trylwyr o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol presennol ar gyfer gwasanaethau gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol.[5]

### *2.2. Datblygiadau yn y pedwerydd Cynulliad hyd yma*

Yng ngoleuni'r adolygiadau o wasanaethau gofal cymdeithasol a gynhaliwyd yn 2009 a 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*[6] ar **2 Mehefin 2011** a oedd yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng nghyd-destun y cynnydd yn y galw am wasanaethau, ac yn y disgwyliadau ohonynt.

Dilynwyd y papur hwn ym **mis Mawrth 2012** gan ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar *Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)* a ddaeth i ben ar **1**

---

[2] Y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, ***Hafan*** [fel ar 8 Chwefror 2013]
[3] Y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, ***Gweithredu'r Weledigaeth***, Tachwedd 2010 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[4] Llywodraeth Cymru, ***Adroddiad Grŵp Gorchwyl y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol*** Rhagfyr 2010 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[5] Llafur Cymru, ***Maniffesto Llafur Cymru: Sefyll Cornel Cymru***, Ebrill 2011
[6] Llywodraeth Cymru ***Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*** [fel ar 8 Chwefror 2013]

**Mehefin 2012.**[7] Cafwyd cyfanswm o 275 o ymatebion a chasglwyd crynodeb o'r farn a fynegwyd mewn Adroddiad Ymgynghori.[8]

Roedd un o gynigion y ddogfen ymgynghori yn ymwneud â sefydlu gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol newydd i Gymru. Cynhaliodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ymchwiliad i fabwysiadu a chyhoeddwyd ei adroddiad ar y mater ym mis **Tachwedd 2012.**[9] Mewn dadl a gynhaliwyd yn y cyfarfod llawn ar **16 Ionawr 2013,** dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor, Christine Chapman, AC:

> Mae argymhelliad cyntaf y pwyllgor yn ymwneud â'r cynigion yn nogfen ymgynghori Bil gwasanaethau cymdeithasol (Cymru) ar gyfer sefydlu gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu cefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad o wasanaeth mabwysiadu cenedlaethol, gan asiantaethau a rhieni fel ei gilydd. O ganlyniad, roedd y pwyllgor yn unfrydol ei farn y dylai rôl darparu gwasanaethau uniongyrchol y gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol gael ei chryfhau'n sylweddol o'r hyn a nodir ar hyn o bryd yn nogfen ymgynghori Bil gwasanaethau cymdeithasol (Cymru). Credwn y dylai gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol gael rôl ddarparu ganolog ar gyfer ystod o wasanaethau mabwysiadu, gan gynnwys recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr, a dylai gyflogi staff yn ganolog a rhanbarthol. Dylai hefyd gael rôl yn hwyluso'r gwaith o ddod o hyd i fabwysiadwyr ar gyfer plant ar lefel genedlaethol, gan gynnwys cadw cofrestr fabwysiadu genedlaethol i Gymru. Teimlwn yn gryf hefyd na ddylai'r gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol fod yn eiddo i awdurdodau lleol, fel y nododd y Dirprwy Weinidog dros blant yn y cynigion presennol. Rwyf, felly, yn siomedig nad yw'r Dirprwy Weinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn yn ei gyfanrwydd. [10]

Wrth ymateb, ymdriniodd y Dirprwy Weinidog â rhai o'r pwyntiau a godwyd:

> Bydd y gwasanaeth newydd yn mynd i'r afael â phryderon cyfredol heb golli cryfderau diamheuol y system bresennol, a thrwy hynny gyflawni newid heb amharu ar y broses. Mae'r pwyllgor eisoes yn ymwybodol fy mod yn edrych ymlaen at dderbyn y model gweithredol sy'n cael ei ddatblygu ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwy'n disgwyl i'r model a gyflwynir gyflawni'r newid sylweddol a nodwyd gan bob un ohonom fel un angenrheidiol, ac un y gallwn ei ddatblygu ymhellach drwy grŵp strategol. O fewn ei fodel, rwy'n disgwyl gweld pwyslais cryf ar bartneriaeth gyda'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol, a gweld y buddiannau y gall y sectorau hyn eu rhoi i fabwysiadu yn fwy cyffredinol.
>
> Byddaf yn ystyried ac yn myfyrio ar hyfywedd y model hwn. Os nad wyf yn ddigon bodlon y bydd y model arfaethedig yn galluogi'r gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol i fynd i'r afael ag anghysondebau cyfredol yn y gwasanaethau a ddarperir, byddaf wedyn yn ystyried

---

[7] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Ymgynghori Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)*** 12 Mawrth 2012 [fel ar 8 Chwefror 2013]

[8] Llywodraeth Cymru, ***Adroddiad Ymgynghori – Crynodeb o'r Atebion: Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)*** [fel ar 8 Chwefror 2013]

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Adroddiad ar yr Ymchwiliad i Fabwysiadu***, Tachwedd 2012 [fel ar 25 Chwefror 2013]

[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Fabwysiadu***, 16 Ionawr 2013 [fel ar 12 Chwefror 2013]

cyfarwyddo awdurdodau lleol i gyflawni'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol, yn unol â'r pwerau newydd yn y Bil gwasanaethau cymdeithasol a lles (Cymru). [11]

Cafodd gwaith Llywodraeth Cymru ar ddatblygu deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol ei lywio hefyd gan farn Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr am gyfraith gofal cymdeithasol i oedolion[12] ym **mis Mai 2011** a chan Adolygiad Cyfiawnder Teuluol Cymru a Lloegr[13] ym **mis Tachwedd 2011**.

Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith gofal cymdeithasol i oedolion yn rhoi sylw i'r llu o statudau, newidiadau strwythurol a newidiadau i bolisïau ers pasio *Deddf Cymorth Gwladol 1948*,[14] sy'n sail i ofal cymdeithasol i oedolion hyd heddiw.[15] Roedd yr adroddiad hefyd yn gwneud nifer o argymhellion ac mae rhai o'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn y Bil, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chwmpas gwasanaethau gofal cymdeithasol ac asesiadau a chymhwystra mewn perthynas â hwy.

## *2.3. Y sefyllfa yn Lloegr*

Ar **11 Gorffennaf 2012**, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd Llywodraeth y DU ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Andrew Lansley AS, Bapur Gwyn a *Bil Gofal a Chymorth* drafft, a fyddai'n gymwys i Loegr yn unig.[16] Wrth gyhoeddi'r cynigion drafft, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> Too often people who need care don't know who or where to go to, don't know what care they will get and don't know how it will be paid for. Our plans will bring the most comprehensive overhaul of social care since 1948 and will mean that people get the care and support that they need to be safe and to live well so they don't reach a crisis point.[17]

Mae'r Bil drafft yn amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn Lloegr ac yn rhoi sylw i rai o argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr am ofal cymdeithasol i oedolion. Mae ei nodau eraill yn cynnwys:

- Newid y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofal a chymorth.
- Sefydlu Health Education England fel corff cyhoeddus anadrannol.
- Sefydlu'r Awdurdod Ymchwil Iechyd fel corff cyhoeddus anadrannol.
- Creu Bwrdd Gwella Iechyd Llundain.[18]

Disgwylir Bil Gofal a Chymorth i Loegr yng ngwanwyn 2013.

---

[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Fabwysiadu***, 16 Ionawr 2013 [fel ar 12 Chwefror 2013]
[12] Comisiwn y Gyfraith, ***Adult Social Care,*** Mai 2011 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[13] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ***Family Justice Review Final Report*** Tachwedd 2011 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[14] ***Deddf Cymorth Gwladol 1948*** (Pennod 29) (Saesneg yn unig)
[15] Comisiwn y Gyfraith, ***Adult Social Care,*** Mai 2011, tudalen 1 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[16] Adran Iechyd, ***Government announces care and support reforms***,11 Gorffennaf 2012 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[17] Ibid
[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Gwasanaeth Ymchwil, ***Araith y Frenhines 2012***, Mai 2012, Pennod 4.2 [fel ar 8 Chwefror 2013]

Ar **4 Chwefror 2013,** cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, y Gwir Anrhydeddus Syr Michael Gove AS, y *Bil Plant a Theuluoedd.*[19] Cafwyd y darlleniad cyntaf ohono yn Nhŷ'r Cyffredin yn fuan wedyn, ar **7 Chwefror 2013.** Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau mabwysiadu. [20] Yn benodol, mae bwriad Adran 3 o'r Bil yn debyg i rannau o *Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* sy'n berthnasol i fabwysiadu. Yn benodol, mae'r Adran hon yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yn Lloegr gomisiynu gwasanaethau recriwtio mabwysiadwyr gan un neu fwy o asiantaethau mabwysiadu eraill.[21]

Mae rhai darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru ac felly maent yn destun Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cynulliad.[22] Mae'r darpariaethau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer yn cynnwys Adran 6 (sy'n ymwneud â datgymhwyso'r Gofrestr Deddf Mabwysiadu a Phlant i Gymru) ac Adran 15 (sy'n ymwneud â pharatoi cynllun gofal).

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Plant a Theuluoedd ar **12 Chwefror 2013.** Mae'r memorandwm sy'n cyd-fynd â'r Cynnig yn rhoi rhesymau pam y dylai'r Cynulliad roi cydsyniad i Senedd y DU ddeddfu ar ei ran yn yr achos hwn:

> Nid yw cyfraith ac achosion teuluol yn faterion sydd wedi eu datganoli, ac ym marn Llywodraeth Cymru, y Bil hwn ar gyfer y DU yw'r cyfrwng mwyaf priodol a chymesur ar gyfer gwneud y darpariaethau sy'n diwygio'r gyfraith deuluol yn gymwys i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hefyd yn sicrhau cysondeb ledled Cymru a Lloegr yn y modd y bydd llysoedd cyfiawnder teuluol yn ymdrin ag achosion cyfraith teulu, a'r modd y bydd awdurdodau lleol a Swyddogion Achosion Teulu yng Nghymru (Cafcass Cymru) yn trin achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat.
>
> Mae swyddogaethau awdurdodau lleol o ran mabwysiadu plant wedi eu datganoli. Roedd y darpariaethau newydd yn y Bil Plant a Theuluoedd yn gyfle amserol i ddeddfu ar gyfer datgymhwyso'r darpariaethau blaenorol mewn perthynas â Chymru.[23]

---

[19] *Y Bil Plant a Theuluoedd* (Saesneg yn unig)
[20] I gael rhagor o wybodaeth am y Bil gweler Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Research Paper RP13/11: Children and Families Bill***, 15 Chwefror 2013 [fel ar 21 Chwefror 2013]
[21] Tŷ'r Cyffredin, ***Children and Families Bill: Explanatory Notes***, 4 Chwefror 2013, paragraff 5 [fel ar 12 Chwefror 2013]
[22] I gael rhagor o wybdoaeth am Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, gweler Cynulliad CEnedlaethol, y Gwasanaeth Ymchwil ***Hysbysiad Hwylus: Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol***, Tachwedd 2011
[23] Llywodraeth Cymru, ***Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Plant a Theuluoedd*** 12 Chwefror 2013, paragraffau 13 ac 14 [fel ar 12 Chwefror 2013]

# 3. Y Bil

## *3.1. Nodau ac amcanion polisi*

Nod y Bil yw darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer nodau polisi Llywodraeth Cymru ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain wedi'u pennu yn nogfennau polisi ac ymgynghoriadau blaenorol Llywodraeth Cymru (a amlinellir yn y bennod flaenorol), ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Maent yn cynnwys:

- **Cynnal gwasanaethau cymdeithasol integredig:** Gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt o fewn fframwaith sy'n cynnwys oedolion yn ogystal â phlant, a'u gofalwyr.
- **Cynyddu cysondeb gwasanaethau:** Gwella mynediad i wasanaethau cymdeithasol, ynghyd â'r ddarpariaeth, ledled Cymru.
- **Cydgrynhoi deddfwriaeth gofal cymdeithasol Cymru:** Symleiddio ac egluro dyletswyddau mewn perthynas â phlant, oedolion a gofalwyr i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn effeithlon a lleihau'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i ymdopi â'r fframwaith cyfreithiol presennol.
- **Grymuso defnyddwyr gwasanaethau:** Rhoi llais cryfach iddynt, a mwy o reolaeth dros wasanaethau.
- **Cryfhau trefniadau diogelu ac amddiffyn oedolion a phlant.**
- **Hybu gwaith partneriaeth mewn gofal cymdeithasol:** Ehangu'r cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill, gan gynnwys darparwyr y GIG. Byddai'r darpariaethau cydweithredu sydd yn y Bil hefyd yn hwyluso'r broses o ddiwygio gwasanaethau mabwysiadu.
- **Gwella rôl ataliol awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd a phennu dyletswyddau llesiant cyffredinol iddynt hwy a'u partneriaid:** Osgoi neu oedi'r angen am ofal a chymorth a hyrwyddo llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'u gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Yn wreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys diwygiadau i'r broses arolygu a rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol yn y Bil, ond mae bellach wedi penderfynu [24] y bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn Bil ar wahân a gyflwynir yn y Cynulliad hwn ac a gaiff ei ragflaenu gan Bapur Gwyn yn 2013.

---

[24] Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol) ***Diweddariad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn dilyn yr Ymgynghoriad*** Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 28 Mehefin 2012 [fel ar 24 Ionawr 2013]

## *3.2. Darpariaethau*

Mae'r Bil yn cynnwys 169 o Adrannau, wedi'u rhannu'n un ar ddeg Rhan, a thair Atodlen. Rhoddir crynodeb o bob Rhan isod.

Mae **Rhan 1 (Cyflwyniad)** yn rhoi trosolwg o'r Bil a diffiniadau o dermau allweddol, gan gynnwys diffiniad newydd, ehangach o 'lesiant'.

Mae **Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)** yn amlinellu dyletswyddau cyffredinol awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac eraill o ran 'llesiant' pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r Rhan hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol asesu maint yr angen a'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion yn eu hardaloedd. Mae'r rhan hon hefyd yn mynnu bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:

- Darparu neu drefnu gwasanaethau ataliol gyda'r nod o greu budd i amrywiaeth lawer ehangach o bobl na'r rhai sy'n gymwys i gael gofal a chymorth ar ôl asesiad.
- Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, i ddatblygu modelau darparu gwasanaeth newydd
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r cyhoedd ynglŷn â gwasanaethau gofal a chymorth a sut i gael mynediad atynt.
- Sefydlu cofrestrau o bobl ddall, pobl fyddar a phlant anabl.

Mae **Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion)** yn cwmpasu asesu oedolion, plant a gofalwyr ac mae'n rhoi un hawl i gael asesiad gyda phwyslais gwahanol ar gyfer pob grŵp.

Mae'n cynnwys gofynion y dylai asesiadau fod yn gymesur o dan yr amgylchiadau ac y dylent ganfod y canlyniadau y mae unigolion a/neu rieni a gofalwyr ac ati plant yn dymuno eu sicrhau ac i ba raddau y bydd gofal a chymorth yn helpu i sicrhau'r canlyniadau hynny. Yn achos gofalwyr, rhaid i asesiad hefyd ganfod anghenion gwaith, hyfforddiant neu addysg, anghenion datblygiadol yn achos gofalwyr ifanc, a pharodrwydd a'r gallu i ofalu. Ni fyddai'r gofyniad presennol bod yn rhaid i ofalwr fod yn darparu gofal 'sylweddol' a 'rheolaidd' yn berthnasol mwyach.

Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu ar gyfer integreiddio asesiadau ar draws meysydd gwasanaeth, er enghraifft gydag asesiadau gwasanaethau iechyd.

Mae **Rhan 4 (Diwallu anghenion)** yn ymwneud â diwallu anghenion oedolion, plant (nad ydynt y derbyn gofal gan awdurdod lleol) a gofalwyr, gan gynnwys drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn pennu ffyrdd o ddiwallu anghenion; y nod yw caniatáu hyblygrwydd ac arloesi.

Mae'r broses asesu yn cael ei dilyn gan broses pennu cymhwystra am wasanaethau a byddai hyn yn cael ei gyflawni o fewn fframwaith cymhwystra cenedlaethol newydd, er y gall yr angen i amddiffyn unigolion rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso fod yn drech na'r meini prawf cymhwystra. Nid yw fframwaith o'r fath wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil. Yn hytrach caiff ei adael i'w ragnodi mewn rheoliadau dilynol. Byddai awdurdodau lleol yn cadw'r disgresiwn i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd y tu allan i'r meini prawf cymhwystra.

Nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a chanddynt ddigon o fodd i dalu am eu gwasanaethau eu hunain, oni fyddant yn gwneud cais am hynny.

Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu ar gyfer taliadau uniongyrchol a phwerau gwneud rheoliadau i bennu eu cwmpas a'u gweinyddiaeth. Yn benodol, bydd y Rhan hon yn ei gwneud yn bosibl defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gwasanaethau awdurdodau lleol.

Mae'r Rhan hon hefyd yn nodi y dylai pobl ag anghenion cymwys gael cynllun gofal a chymorth a fydd, heblaw mewn perthynas â gofalwyr a chynlluniau a lunnir gan ddefnyddio pwerau disgresiwn, yn 'gludadwy' ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae **Rhan 5 (Codi ffioedd ac asesiadau ariannol)** yn cwmpasu'r ffioedd y gall awdurdodau lleol eu codi am wasanaethau cymdeithasol ac yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i amlinellu amgylchiadau codi ffioedd a'r ffioedd uchaf y gellir eu codi.

Yn benodol, mae'r Rhan hon yn mynnu bod awdurdodau lleol sy'n darparu gofal a chymorth i unigolyn, neu sy'n trefnu gofal o'r fath, yn cynnal asesiad ariannol o adnoddau'r unigolyn, a bydd rheoliadau'n pennu'r meini prawf ar gyfer penderfynu a yw'r unigolyn yn atebol i dalu ffioedd.

Gall awdurdodau lleol godi ffioedd am wasanaethau ataliol ac am wybodaeth, cyngor a chymorth, yn amodol ar reoliadau, ond ni fyddai'n ofynnol iddynt godi ffioedd am ofal preswyl mwyach.

Mae **Rhan 6 (Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya)** yn adlewyrchu'n bennaf y dyletswyddau presennol a osodir ar awdurdodau lleol gan Ran 3 o *Ddeddf Plant 1989* mewn perthynas â phlant sy'n 'derbyn gofal' (nad ydynt yn destun gorchymyn gofal ffurfiol), y rhai sy'n gadael gofal, a phlant sy'n cael eu lletya.

O dan y deddfiadau hynny, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety i blant y mae angen llety arnynt, i ddiogelu plant sy'n derbyn gofal a hyrwyddo eu llesiant, hyrwyddo cyflawniad addysgol a diwallu eu hanghenion o ran gofal a chymorth.

Mae'r Bil yn darparu y bydd 'lleoliadau y tu allan i ardal' yn destun gofynion penodol a gaiff eu pennu mewn rheoliadau.  Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer maethu plant, gan gynnwys cymeradwyo rhieni maeth awdurdodau lleol a threfniadau gydag asiantaethau maethu.

Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu ar gyfer cyswllt rhwng plant sy'n derbyn gofal a rhieni/perthnasau ac ati, ac ar gyfer ymwelwyr annibynnol a Swyddogion Adolygu Annibynnol.  Mae hefyd yn pennu categorïau y rhai sy'n gadael gofal, eu hawl i gymorth a lefel y cymorth hwnnw.

Pennir yr amgylchiadau ar gyfer defnyddio llety diogel a'r cyfyngiadau ar hynny yn y Rhan hon. Gellir darparu ar gyfer hyn mewn rheoliadau dilynol a wneir gan Weinidogion Cymru hefyd.

Mae **Rhan 7 (Diogelu)** yn darparu fframwaith cyfreithiol newydd i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg, gan gynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymchwilio i achosion o gam-drin a amheuir ac ymateb yn briodol iddynt.  Mae'n darparu pwerau mynediad i ganiatáu mynediad at unigolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg. Mae hefyd yn diddymu pŵer o dan adran 47 o *Ddeddf Cymorth Gwladol 1947* i symud unigolyn y mae angen gofal arno o'i gartref.

Mae'r Rhan hon hefyd yn sefydlu Bwrdd Diogelu annibynnol Cenedlaethol newydd i fonitro a gwella trefniadau diogelu. Mae hefyd yn darparu ar gyfer byrddau diogelu plant a byrddau diogelu oedolion newydd, gan gynnwys trefniadau posibl i gyfuno byrddau plant ac oedolion yn y dyfodol.

Mae **Rhan 8 (Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol)** yn pennu swyddogaeth statudol gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth bresennol ac yn y Bil hwn. Nodir y swyddogaethau hyn yn Atodlen 2; gall Gweinidogion Cymru newid yr atodlen hon drwy reoliadau dilynol.

Mae'r Rhan hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol penodi Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob awdurdod lleol, ond gall dau awdurdod neu fwy rannu Cyfarwyddwr, ac mae'n cynnwys pwerau i gyhoeddi codau ymarfer y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn.  Mae hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd os bydd awdurdod lleol yn methu â chyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae **Rhan 9 (Canlyniadau llesiant, cydweithrediad a phartneriaeth)** yn rhoi dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi 'datganiadau canlyniadau cenedlaethol' a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad i bennu canlyniadau darpariaeth gofal a chymorth.  Cyhoeddir codau ymarfer i helpu i gyflawni'r canlyniadau a bennir a gall y rhain osod gofynion ar awdurdodau lleol, gan gynnwys safonau, mesurau a thargedau.

Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill, fel y rhestrir yn y Bil, a gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.  Gellir

rhagnodi trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, a rhyngddynt hwy a Byrddau Iechyd Lleol, mewn rheoliadau.

Yn ogystal, mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer trefniadau ar y cyd ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu i hwyluso gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol.

Mae **Rhan 10 (Cwynion a sylwadau)** yn darparu ar gyfer y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chwynion a sylwadau am wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau i blant. Mae'r pwerau gwneud rheoliadau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhan hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi cymorth (e.e. eiriolaeth) i bobl sy'n gwneud cwynion a sylwadau, ac i'r grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth a all gael cymorth. Pennir trefniadau hefyd ynglŷn â sylwadau am blant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal.

Yn y Rhan hon hefyd ceir pwerau newydd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i gwynion am ofal cymdeithasol a gofal lliniarol preifat.

Mae **Rhan 11 (Atodol a chyffredinol)** yn cynnwys materion atodol megis adennill costau rhwng awdurdodau lleol a diffiniad o 'breswylfa arferol'. Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys darpariaeth gyffredinol ar gyfer defnyddio offerynnau statudol i amrywio effeithiau'r Ddeddf ac yn pennu pa offerynnau statudol a fydd yn destun y penderfyniad cadarnhaol a pha rai a fydd yn destun y penderfyniad negyddol. Cynhywsir rhestr o'r termau a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y Bil yn y Rhan hon.

## 4. Goblygiadau ariannol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol yn cyflwyno tabl crynodeb o'r costau a'r manteision dros gyfnod o 10 mlynedd mewn perthynas â gweithredu'r Bil. [25]

Mae'r tabl yn amlygu gwerth net presennol o £2.1 miliwn sy'n cynnwys:

- Costau untro ar gyfer hyfforddiant o £12.2 miliwn er mwyn gweithredu 'r newidiadau yn y Bil sy'n cynnwys £1.8 miliwn o gostau hyfforddi staff a £10.5 miliwn o gostau cyfle o ganlyniad i'r ffaith y byddai'r aelodau o staff hyn oddi wrth eu desgiau tra byddant yn cael eu hyfforddi. Mae'r £12.3 miliwn wedi cael ei ddisgowntio gan ddefnyddio cyfradd o 3.5 y cant er mwyn rhoi gwerth presennol net o £12.2 miliwn.[26]
- Manteision cylchol o £14.3 miliwn sy'n cynnwys £2 filiwn o feichiau gweinyddol llai ar staff; £80,000 yn sgil llai o gwynion ac £80,000 yn sgil llai o ymgyfreitha. Tybir y bydd y manteision yn digwydd ar ôl blwyddyn 2 y Bil am wyth mlynedd (h.y. £2.2. miliwn x 8 mlynedd = £17.6 miliwn wedi'i ddisgowntio).

Noda'r  Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod costau a manteision eraill na ellir eu mesur ar hyn o bryd neu a gaiff eu hasesu pan fydd y rheoliadau manwl yn hysbys. Gan y caiff llawer o'r darpariaethau manwl sydd yn y Bil eu darparu mewn is-ddeddfwriaeth, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd rhoi cyfanswm cost gweithredu'r Bil, fel yr ategir gan y datganiad canlynol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> Mae hyn yn awgrymu y bydd manteision ychwanegol gweithredu'r Bil yn fwy na'r costau Ychwanegol. Fodd bynnag, dylid nodi mai cymhariaeth syml yw hon ar sail yr hyn rydym yn ei wybod ar hyn o bryd. Ymchwilir i nifer o feysydd lle disgwylir i'r Bil gael effaith wrth lunio rheoliadau penodol. **Yn anochel felly bydd effaith rheoliadau o'r fath yn dylanwadu ar y canlyniad Gwerth Presennol Net cyffredinol a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn (ee efallai y bydd costau'n cynyddu ac ni wneir yn iawn am hynny drwy gynnydd cyfatebol mewn manteision). Mae angen gwneud rhagor o waith costio felly wrth ystyried y rheoliadau a fydd yn dilyn o dan y Bil ar adeg pan fyddwn yn gwybod mwy am fanylion y rheoliadau hynny.**[27]

---

[25] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru), ***Memorandwm Esboniadol***, paragraph 174 [fel ar 18 Chwefror 2013]
[26] Ibid, paragraff 175
[27] Ibid Paragraff 177

## 5. Ymatebion

Yn ei datganiad deddfwriaethol am y Bil i Aelodau'r Cynulliad yn y cyfarfod llawn ar 29 Ionawr 2013, rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Lesley Griffiths AC, drosolwg o nodau ac amcanion y Bil:

> Mae'r Bil hwn yn rhoi effaith i'r polisi yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer Cymru'. Mae dau amcan polisi allweddol yn ganolog iddo. Y cyntaf yw gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, yn ogystal â gofalwyr sydd angen cymorth, a'r ail amcan yw diwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol i greu, am y tro cyntaf, fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru sydd wedi cael ei wneud yng Nghymru.[28]

Ynglŷn â'r darpariaethau is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, dywedodd y Gweinidog:

> Mae'r Bil yn galluogi yn ei natur a bydd yr Aelodau'n gweld llawer o waith ar ôl i'w wneud i adeiladu manylion y system drwy is-ddeddfwriaeth. Rydym am i'r gwaith gael ei wneud ar y cyd a chydag ymrwymiad go iawn gan y rhai sydd â phrofiad o'r maes hwn, neu sy'n gweithio ynddo. Bydd fforwm partneriaeth trawsbleidiol y Dirprwy Weinidog, ynghyd â'r paneli dinasyddion y mae hi wedi'u sefydlu, yn allweddol i sbarduno'r rhaglen waith.[29]

Wrth ymateb ar ran Ceidwadwyr Cymru, dywedodd William Graham AC:

> Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cynnig eu cefnogaeth eang i'r Bil. Pryderwyd ni ychydig gan ddatganiad blaenorol y Dirprwy Weinidog nad oedd yn niwtral o ran cost. Byddwn yn aros i weld sut y mae hyn yn cael ei gyflwyno dros y blynyddoedd nesaf er mwyn gweld a yw hynny, mewn gwirionedd, yn wir.[30]

Ychwanegodd:

> Rydym yn cytuno bod angen y Bil a'i fod yn amserol a hyderwn y bydd yn trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu, yn bennaf drwy hyrwyddo annibyniaeth pobl a rhoi llais cryfach iddynt. Ar hynny, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog ystyried eto'r broses o eiriolaeth annibynnol ac a oes modd ei chryfhau yn ystod taith y Bil.[31]

Cododd un o aelodau meinciau cefn y blaid Lafur, Julie Morgan AC, a'r Aelod Ceidwadol, Darren Millar AC, faterion tebyg ynghylch a ellid ychwanegu darpariaethau'n ymwneud ag eiriolaeth annibynnol at y Bil yn ddiweddarach yng nghyfnodau deddfwriaethol y Cynulliad.[32] Wrth ymateb i bryderon o'r fath, dywedodd y Gweinidog:

> Mewn perthynas ag eiriolaeth, rydym yn edrych ar ystod o faterion, a bydd ymgynghori ar reoleiddio. Wrth i ni fynd drwy'r broses graffu, mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno.[33]

Roedd Lindsay Whittle AC, yn siarad ar ran Plaid Cymru, yn croesawu'r Bil ond ychwanegodd:

---

[28] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, ***Cofnod y Trafodion: Cyflwyno'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)***, 29 Ionawr 2013 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[29] Ibid
[30] Ibid
[31] Ibid
[32] Ibid
[33] Ibid

> …dim ond amser a ddengys a yw wedi cyflawni'r canlyniadau angenrheidiol i rymuso defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr, i wella gwasanaethau ataliol, i wneud yn siŵr bod cyllidebau yn cael eu defnyddio yn fwy effeithiol ac yn effeithlon, ac, yn anad dim, i ddatblygu gofal cymdeithasol yng Nghymru a fydd yn sefyll fel model i eraill ei ddilyn.[34]

Wrth siarad ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, dywedodd Kirsty Williams AC:

> O ran y meini prawf cymhwyster, wrth gwrs, mae'n amhosibl dweud, o'r ffordd y caiff y ddeddfwriaeth ei drafftio ar hyn o bryd, pwy fydd yn gymwys i gael gwasanaeth cymdeithasol, oherwydd nad yw ar wyneb y Bil. Mae'r Llywodraeth, mewn gwirionedd, yn gofyn i Aelodau'r Cynulliad bleidleisio dros ddarn o ddeddfwriaeth pan nad ydym yn glir ar bwy fydd y ddeddfwriaeth yn effeithio, a beth fydd effaith y ddeddfwriaeth ar etholwyr unigol. Mae hynny'n her fawr iawn i Lywodraeth Cymru. Mae'n sicr yn her fawr i fy Aelodau i bleidleisio ar ddarn o ddeddfwriaeth pan nad ydym yn glir beth fydd yr effeithiau ar unrhyw un unigolyn. Rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn ystyried hynny wrth i'r ddeddfwriaeth fynd drwy ei chamau amrywiol yn y Cynulliad. Nid yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am fod yn rhwystrol, ond nid wyf yn credu ei bod yn ormod i ofyn i'r Llywodraeth i ddweud wrthym beth fydd effeithiau'r ddeddfwriaeth hon ar unigolion a lle bydd y meini prawf cymhwyster yn cael ei gosod.[35]

Wrth sôn am y wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys yn y memorandwm esboniadol perthnasol, dywedodd mai 'prin ei bod yn bodoli'[36] ac:

> O ystyried mai holl gynsail y Papur Gwyn oedd nad oes digon o arian yn y system ar hyn o bryd, mae'n debyg na fydd cynsail y ddeddfwriaeth hon a'r dyletswyddau newydd sy'n cael eu rhoi ar awdurdodau lleol gan y ddeddfwriaeth hon yn costio dim ychwanegol. Ni all hynny fod yn wir. Unwaith eto, byddwn yn annog y Llywodraeth, ac yn gofyn i'r Gweinidog ddarparu esboniad gwell ar y datganiad a wnaeth yn y cyfryngau y bore yma, rwy'n credu, y byddai'r Bil hwn yn niwtral o ran cost. Mae'r rhain yn ddyletswyddau newydd sy'n cael eu rhoi ar bobl, a disgwyliadau newydd ohonynt, ac eto nid oes eglurder yma ar sut y bydd hynny'n cael ei ariannu.[37]

Wrth ymateb i'r pwyntiau hyn, dywedodd y Gweinidog:

> Roeddech yn gofyn i'r Llywodraeth adlewyrchu ar rai o'r materion a godwyd gennych. Gallwn edrych ar y rheini wrth inni fynd drwy'r gwaith craffu. Bydd y Dirprwy Weinidog, yn sicr, yn awyddus i edrych ar y rheini. Mae gwaith pellach y mae angen ei wneud o'i amgylch. Mae angen i ni wneud yn siŵr ei fod wedi'i ddiogelu at y dyfodol. Rydym wedi dweud bod hwn yn Fil am genhedlaeth. Ymgynghorir yn eang ar y rheoliadau. Bydd llawer o ymgynghori â rhanddeiliaid, yn ogystal â'r gwaith craffu drwy'r Cynulliad …
>
> Mae'r sylfeini ar gyfer y newidiadau wedi eu gwneud drwy ddiogelu cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol, a byddwn yn lleihau rheoleiddio a biwrocratiaeth â hyn. Mae gwe gymhleth enfawr o ddeddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd, a bydd y Bil hwn yn dod â'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth honno at ei gilydd.[38]

---

[34] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, ***Cofnod y Trafodion: Cyflwyno'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)***, 29 Ionawr 2013 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[35] Ibid
[36] Ibid
[37] Ibid
[38] Ibid

Cafwyd ymateb yn sgil cyhoeddi'r Bil gan nifer o randdeiliaid allanol hefyd. Roedd Cadeirydd Cyngor Gofal Cymru, Arwel Ellis Owen, yn croesawu'r Bil ac ychwanegodd:

> We particularly welcome the step change in the role of social workers and social care managers and workers, with a shift in emphasis on processes to working with people to make the changes necessary to improve their situation.[39]

Roedd MS Society Cymru hefyd yn croesawu llawer o gynnwys y Bil ond yn pwysleisio bod pobl sy'n byw gydag MS eisiau rhyddid i gynllunio eu gofal eu hunain, ac y dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflwyno mwy o ddewis, rheolaeth ac annibyniaeth i'r system gofal cymdeithasol.[40]

Ychydig cyn cyflwyno'r Bil, gwnaeth Mary Van den Heuvel o Leonard Cheshire Disability sylwadau am gynigion sy'n ymwneud â'r meini prawf cymhwystra cenedlaethol, a dywedodd y gallai cynigion Llywodraeth Cymru:

> .. mean an end to a postcode lottery of provision, with different local authorities setting different thresholds for the care they are willing to provide.[41]

Dywedodd hefyd, fodd bynnag:

> But with this comes a big question – at what level will eligibility for social care be set?
>
> … It is likely we will have to wait for regulations to find out the finer details which could mean the difference between 'Mrs Jones' accessing the support she needs in the way she wants, or falling foul of eligibility criteria and being left with no support at all. Let's hope it's the former rather than the latter.[42]

Yn ogystal, gwnaeth Cyfarwyddwr Cymru Scope, Ian Thomas, sylwadau am ddarpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â'r meini prawf cymhwystra cenedlaethol:

> The decision that the Welsh Government take on eligibility will affect thousands of disabled people living in Wales. The choice between 'moderate' and 'substantial' levels of eligibility will determine whether thousands of people will receive the basic care and support they need.
>
> Times are tough for everyone but being able to eat, wash and leave your home is not a luxury. We urge the Welsh Government to give disabled people the support they need by setting the eligibility at a 'moderate level'. Without this, the independence of thousands will suffer.[43]

Er bod Age Cymru yn croesawu llawer o agweddau ar y Bil, dywedodd nad yw'n mynd yn ddigon pell, gan ychwanegu:

> Age Cymru want to see advocacy services provided as a right to adults at risk of abuse.

---

[39] The Guardian, ***Welsh Social Care Bill unveiled***, 29 Ionawr 2013 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[40] Wales Online, ***Social Services to be "transformed" under Welsh Government plans***, 29 Ionawr 2013 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[41] Sefydliad Bevan, ***Will Wales' Social Services Bill delight or disappoint***, 28 Ionawr 2013 [fel ar 8 Chwefror 2013]
[42] Ibid
[43] Wales Online, ***Social Services to be "transformed" under Welsh Government plans***, 29 Ionawr 2013 [fel ar 8 Chwefror 2013]

> Adults at risk of harm are amongst the most vulnerable, disenfranchised members of our communities in Wales, and we must ensure that they have a voice and are safeguarded from abuse. This is why Age Cymru strongly urges the Welsh Government to rectify this omission.[44]

Roedd gan Robin Moulster, rheolwr Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru, amheuon cyffredinol am gynnwys y Bil:

> There are many important issues contained which will help to provide better services across Wales, but the government have tried to include a lot, and there is a risk that they are including too many things. [45]

Ychwanegodd:

> Wales needs to get away from a tickbox mentality … Unless there is a real commitment for organisations to allow and encourage relationship-based social work services, these aims will never become reality … There are good bits in the bill, but it will only work if the culture is right.[46]

Pan gafodd ei gyflwyno, cafodd y Bil ei gyfeirio gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a fydd yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1 y broses ddeddfwriaethol. Mae'r Pwyllgor wrthi'n cynnal ymgynghoriad ar y Bil a fydd yn dod i ben ar 15 Mawrth 2013.[47] Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 21 Mehefin 2013, cyn y ddadl a'r bleidlais ddilynol ar Gyfnod 1 yn y cyfarfod llawn.

---

[44] Wales Online, ***Social Services to be "transformed" under Welsh Government plans***, 29 Ionawr 2013 [fel ar 8 Chwefror 2013]

[45] The Guardian, ***Welsh Social Care Bill unveiled***, 29 Ionawr 2013 [fel ar 8 Chwefror 2013]

[46] Ibid

[47] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ***Ymgynghoriad Cyhoeddus: Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)***, 1 Chwefror 2013 [fel ar 8 Chwefror 2013]